



Ein cyf/Our ref : LW-224-20

Aelodau o'r Senedd

8 Mehefin 2020

Annwyl gyfaill,

Rwyf am roi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ar waith Tasglu'r Cymoedd ar hyn o bryd. Fe gofiwch bod y Tasglu yn symud i'w gyfnod cyflawni olaf ac mae nifer o brosiectau pwysig, megis y Cynllun Grantiau Tai Gwag a Rhaglen Arweinyddiaeth Cymar i Gyfarwng wedi bod yn datblygu'n llwyddiannus. Yn dilyn effaith gychwynnol Covid-19, bu'n rhaid oedi nifer o brosiectau o fewn y rhaglen oherwydd cyfyngiadau capasiti a iechyd a diogelwch.

Gofynnais i swyddogion gynnal adolygiad o bob un o'r saith o flaenoriaethau o fewn rhaglen bresennol Tasglu'r Cymoedd, ac maent wedi adrodd ar eu statws a'r amserlen debygol ar gyfer ailddechrau os yn bosibl, a ble y bydd angen newid y prosiectau er mwyn iddynt fod yn llwyddiannus yn y dyfodol. Trefnais hefyd gyfarfod eithriadol o'r Tasglu ar 7 Mai i drafod sut y gallem ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym i ymyrryd a gwneud cyfraniad positif at adferiad Cymoedd De Cymru. Bydd canlyniadau'r trafnodeaethau hyn yn cael eu bwydo i'r gwaith sy'n cael ei arwain gan y Cwnsler Cyffredinol.

Yn gywir

Lee Waters AS/MS
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.